Rhif: **WG16419**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adroddiad yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012

Dyddiad cyhoeddi: **Medi 2012**

# Adroddiad yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012

**Cynulleidfa**

Prif weithredwyr a chyfarwyddwyr addysg cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; prifathrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; undebau athrawon; Estyn.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru i wneud darpariaeth o dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012 a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer trosi o Fwrdd Gweithredol Interim (IEB) i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal.

**Camau i'w cymryd**

Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth**

Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: sef@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon a'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Dogfennau cysylltiedig**

Deddf Addysg 2002 (Saesneg yn unig)
www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Saesneg yn unig)
www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/31/contents

ISBN digidol 978 0 7504 7930 1
© Hawlfraint y Goron 2012
WG16419

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Cefndir | 2 |
| Trosolwg o’r ymatebion i’r ymgynghoriad | 3 |
| Camau nesaf | 8 |
| Rhestr yr ymatebwyr | 9 |

# Cyflwyniad

Cyfnod yr ymgynghoriad oedd rhwng 28 Chwefror 2012 a 22 Mai 2012. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar 11 o ymatebion i'r ddogfen ymgynghori.

Drwy gydol yr adroddiad, nodir canrannau fel mesur o'r rheini a atebodd bob cwestiwn, nid fel mesur o'r holl ymatebwyr.

Roedd yr ymatebion wedi dod gan y sefydliadau a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Awdurdod lleol | 3 | 27% |
| Undeb llafur | 4 | 36% |
| Llywodraethwyr ysgol | 2 | 18% |
| Elusen | 1 | 9% |
| Arall | 1 | 9% |

Nododd yr ymgynghoriad y trefniadau ar gyfer sicrhau trosi'n llyfn o Fwrdd Gweithredol Interim yn ôl i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal a gwahoddodd farn ar y dulliau a gynigir.

Gwnaed yr ymgynghoriad yn electronig a hysbyswyd cynulleidfa eang amdano gan gynnwys ysgolion, Llywodraethwyr Cymru, Awdurdodau Lleol, Estyn ac undebau athrawon.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau gyda chefndir, trosolwg ac yna dadansoddiad cryno o bob cwestiwn o fewn yr ymgynghoriad. Gellir cael mynediad i'r ddogfen ymgynghori yn:
**http://wales.gov.uk/consultations/education/governance/?lang=en&status=closed**

# Cefndir

Mae Paragraff 19(2) a (3), Atodlen 1A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru sefydlu Bwrdd Gweithredol Interim a fydd yn cymryd lle corff llywodraethu ysgol.

Corff bach yw Bwrdd Gweithredol Interim a benodir gan awdurdod lleol am gyfnod byr er mwyn gwyrdroi hynt ysgol y bernir bod angen mynd ati ar frys i'w gwella. Mae Bwrdd Gweithredol Interim yn disodli corff llywodraethu ysgol sydd un ai'n destun mesurau arbennig, yn ysgol y mae Estyn wedi barnu bod angen iddi wella'n sylweddol neu'n ysgol nad yw wedi cydymffurfio â hysbysiad rhybuddio oddi wrth ei hawdurdod lleol.

Prif swyddogaethau'r Bwrdd Gweithredol Interim yw sicrhau sail gadarn ar gyfer cyflawni gwelliannau yn yr ysgol yn y dyfodol a hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol. Unwaith y penderfynir bod gofyn i'r awdurdod lleol sefydlu Bwrdd Gweithredol Interim mewn ysgol, mae'n cyhoeddi hysbysiad sy'n nodi y bydd y corff lywodraethu yn cynnwys aelodau gweithredol interim o ddyddiad penodedig. Gallai'r hysbysiad hwn hefyd nodi ar ba ddyddiad y bydd y Bwrdd Gweithredol Interim yn dod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal, neu gallai hyn gael ei bennu mewn hysbysiad diweddarach.

Mae Atodlen 1A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn pennu y gall trefniadau ar gyfer trosi o Fwrdd Gweithredol Interim yn ôl i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal gael eu rhagnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chorff llywodraethu ysgol yn trosi o fod yn gorff a gyfansoddwyd fel bwrdd gweithredol interim yn unol ag Atodlen 1A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i fod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol ag Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu y caiff yr awdurdod lleol wneud trefniadau i sefydlu corff llywodraethu cysgodol o leiaf chwe mis cyn i'r Bwrdd Gweithredol Interim beidio â gweithredu. Cyfansoddir y Corff Llywodraethu Cysgodol yn yr un modd â chorff llywodraethu'r ysgol. Gallai'r Bwrdd Gweithredol Interim ddirprwyo swyddogaethau i'r corff llywodraethu cysgodol yn ystod y cyfnod hwn. Pan fydd y Bwrdd Gweithredol Interim yn camu i lawr caiff y Corff Llywodraethu Cysgodol ei drin fel petai'n gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal.

## Trosolwg o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

Derbyniwyd un ar ddeg ymateb i’r ymgynghoriad. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno gyda’r holl gynigion o fewn yr ymgynghoriad. Nodir y cwestiynau a ofynnwyd a’r prif bwyntiau isod:

### Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno y dylai Corff Llywodraethu Cysgodol gael ei sefydlu o leiaf chwe mis cyn i Fwrdd Gweithredol Interim gamu i lawr? (Fel y nodir yn rheoliad 5).

| Cytuno’n Gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 40% | 60% | 0% | 0% | 0% | 0% |

Cafwyd consensws llwyr y dylid sefydlu’r corff llywodraethu cysgodol chwe mis cyn i Fwrdd Gweithredol Interim gamu i lawr er mwyn rhoi digon o amser i drosglwyddo materion yn effeithlon ac i sicrhau dilyniant a chysondeb.

Awgrymodd un ymatebydd na fyddai’r amserlen o isafswm o chwe mis a gynigir yn rhoi nifer fawr o wythnosau ysgol i’r Corff Llywodraethu Cysgodol a’r Bwrdd Gweithredol Interim gael effaith gadarnhaol, pe byddent yn cael eu sefydlu yn nhymor yr haf ac awgrymodd y byddai’n well cyfeirio at y cyfnod amser yn nhermau tymhorau academaidd. Er enghraifft; cyfnod o ddau dymor ysgol o leiaf.

**Ymateb:** Amserlen isafswm yw’r amserlen o chwe mis. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ymyrraeth mewn ysgolion sy’n peri pryder yn cydnabod y gallai fod angen i gorff llywodraethu cysgodol weithio ar y cyd â Bwrdd Gweithredol Interim am yn hwy na chwe mis. Er enghraifft, blwyddyn academaidd lawn, a fyddai’n caniatáu i’r corff llywodraethu cysgodol brofi blwyddyn gyfan o’r cylch cynllunio a rheoli.

### Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno y dylai cyfansoddiad y Corff Llywodraethu Cysgodol adlewyrchu cyfansoddiad corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal? (Rheoliadau 6–8).

| Cytuno’n Gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| 45% | 45% | 9% | 0% | 0% | 0% |

Cafwyd cytundeb/consensws cyffredinol y dylai cyfansoddiad y corff llywodraethu cysgodol adlewyrchu corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Sylwadau'r ymatebwyr oedd y byddai hyn yn cynyddu tryloywder, cysondeb ac atebolrwydd ac y byddai'n angenrheidiol er mwyn mesur effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Dywedodd un ymatebydd nad yw'r ddogfen ymgynghori yn nodi pa un a allai/ddylai llywodraethwyr o'r corff llywodraethu blaenorol fod yn gymwys.

**Ymateb:** Does dim yn rhwystro llywodraethwyr presennol rhag cael eu penodi ar Fwrdd Gweithredol Interim ac, yn yr un modd, gellir penodi llywodraethwyr presennol ar gorff llywodraethu cysgodol. Mater i'r awdurdod lleol yw penodi Aelodau Gweithredol Interim a Llywodraethwyr Cysgodol a dylid dewis aelodau ar sail achos unigol yn ddibynnol ar anghenion yr ysgol.

Gwnaeth un ymatebydd dicio'r blwch ddim yn cytuno nac yn anghytuno y dylai cyfansoddiad a gwneuthuriad y corff llywodraethu cysgodol adlewyrchu corff a gyfansoddwyd yn normal. Yn rhan o'r sylwadau cefnogol, nodwyd nad yw hi bob amser yn bosib adlewyrchu cyfansoddiad corff llywodraethu normal yn llwyr, er y dylid ceisio'i adlewyrchu.

**Ymateb:** Mae Rheoliadau 6–8 yn cyfeirio at gydymffurfiaeth y corff Llywodraethu cysgodol â rheoliadau'r llywodraeth, sy'n awgrymu na wnaeth yr ymatebydd ddeall y cwestiwn yn llwyr, o bosib.

## Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Chlerc y Corff Llywodraethu Cysgodol ac ar gyfer sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw? (Fel y nodir yn rheoliadau 9, 10, 13 ac 14).

| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 50% | 50% | 0% | 0% | 0% | 0% |

Cafwyd cytundeb unfrydol i'r cynigion ar gyfer penodi Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Chlerc a chadw cofnodion cyfarfodydd. Gwnaed sylwadau bod y rhain yn cyd-fynd â'r arferion normal a ddisgwylir ar gyfer ffurfio a chefnogi cyrff llywodraethu ac, o gofio y dylai'r Corff Llywodraethu Cysgodol weithredu fel unrhyw Gorff Llywodraethu arall cyn gynted â phosib, argymhellir y byddent yn hwyluso'r holl swyddogaethau yn y dull angenrheidiol.

**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno y dylai'r Corff Llywodraethu Cysgodol allu pennu ei weithdrefnau ei hun a bod yn rhaid iddo ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau a ddirprwyir iddo gan y Bwrdd Gweithredol Interim? (Rheoliadau 11 a 12).**

| Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 7 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| 10% | 70% | 10% | 0% | 10% | 0 |

Roedd 80% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylai'r bwrdd llywodraethu cysgodol allu pennu ei weithdrefnau ei hun er mwyn annog rheolaeth gref. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai'r corff cysgodol ddilyn gweithdrefnau yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

Roedd sawl un o'r ymatebwyr yn teimlo fod y cwestiwn hwn yn amwys a bod angen gwell eglurder ar y cynnig i ganiatáu i'r Corff Llywodraethu Cysgodol bennu ei weithdrefnau ei hun.

**Ymateb**: Nid yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 na Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005 yn berthnasol yng nghyswllt Byrddau Gweithredol Interim ac mae'n dilyn, gan y bydd y Bwrdd Gweithredol Interim yn hyfforddi'r Corff Llywodraethu Cysgodol yn ystod y cyfnod trosi ac yn dirprwyo swyddogaethau, bod y Corff Llywodraethu Cysgodol yn medru pennu ei weithdrefnau ei hun yn ystod y cyfnod trosi. Fodd bynnag, ar ddiwedd y cyfnod trosi, dylid trin y Corff Llywodraethu Cysgodol fel y corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal ac, yn sgil hynny, dylai fod yn amodol ar yr un rheoliadau.

Roedd un ymatebydd yn ystyried y byddai'n annhebygol y byddai'r Bwrdd Gweithredol Interim yn dymuno dirprwyo unrhyw beth yn ystod y cyfnod chwe mis ac roedd peth pryder ynghylch y geiriad "rhaid iddo ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau y dirprwyir iddo gan y Bwrdd Gweithredol Interim" gan yr ystyriwyd y gellid dehongli hyn fel bod y Bwrdd Gweithredol Interim yn gweithio ar lefel uwch na'r corff llywodraethu cysgodol sydd wedi'i benodi o'r newydd.

**Ymateb**: Byddai aelodau'r Bwrdd Gweithredol Interim wedi'u dewis yn seiliedig ar eu haddasrwydd, eu sgiliau a'u profiad er mwyn ymateb i sicrhau newid sylweddol wrth arwain a rheoli'r ysgol. Y prif bwrpas i'r ddau gorff gydredeg ac i'r Bwrdd Gweithredol Interim allu dirprwyo swyddogaethau yw caniatáu i aelodau'r Bwrdd Gweithredol Interim hyfforddi'r corff llywodraethu cysgodol ac i'r Corff Llywodraethu Cysgodol efelychu ymddygiad da.

## Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno y dylid ymdrin â’r Corff Llywodraethu Cysgodol fel pe bae’n gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal o’r dyddiad y mae’r Bwrdd Gweithredol Interim yn camu i lawr? (Rheoliad 15).

| Cytuno’n Gryf | Cytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n Gryf | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 30% | 70% | 0% | 0% | 0% | 0% |

Roedd pawb a ymatebodd i’r cwestiwn hwn yn cytuno y dylid trin y corff llywodraethu cysgodol fel corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal wedi i’r Bwrdd Gweithredol Interim gamu i lawr. Nododd ymatebwyr y dylai’r Corff Llywodraethu newydd allu gweithredu i gynllun clir a ffurfiwyd ar y cyd â’r Bwrdd Gweithredol Interim. O ystyried y byddai’r corff llywodraethu cysgodol wedi bod yn weithredol ar y cyd â’r Bwrdd Gweithredol Interim, byddai ei drin fel corff a gyfansoddwyd yn normal ar ôl i’r Bwrdd Gweithredol Interim gael ei ddirwyn i ben yn rhoi sefydlogrwydd a dilyniant i’r ysgol yn y dyfodol.

Awgrymodd un o’r ymatebwyr y byddai angen sicrhau cyfnod trosglwyddo priodol i’r clerc, yn enwedig os nad oes gan y clerc brofiad blaenorol o glercio cyrff llywodraethu.

**Ymateb:** O ystyried y byddai Clerc y Corff Llywodraethu Cysgodol wedi bod yn ei le am o leiaf chwe mis mewn swydd gysgodol ac y bydd y Corff Llywodraethu Cysgodol yn cael ei ystyried yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal wedi i’r Bwrdd Gweithredol Interim gamu i lawr, ystyriwn y byddai chwe mis yn rhoi digon o amser i’r clerc ddatblygu’r arbenigedd angenrheidiol.

Rhoddodd ymatebydd arall gytundeb amodol bod y cynnig hwn yn rhoi cysondeb i’r llywodraethu, ond gallai hefyd ddarparu ar gyfer dilyniant y corff llywodraethu sydd wedi colli hyder gweithlu’r ysgol.

**Ymateb**: Pwrpas penodi Bwrdd Gweithredol Interim yw sicrhau newid sylweddol wrth arwain a rheoli ysgol. Y defnydd gorau a wneir ohono yw pan nad yw’r corff llywodraethu presennol yn herio Pennaeth neu uwch dîm rheoli’r ysgol yn ddigonol, pan yw’n rhwystro cynnydd neu os yw’r berthynas waith wedi methu a bod hynny’n cael effaith ar safonau. Yr awdurdod lleol fyddai’n pennu a oes gan y corff llywodraethu cysgodol y sgiliau a’r rhagofynion angenrheidiol i herio fel sydd angen ac i sicrhau fod gan y corff llywodraethu cysgodol hyder yr ysgol a’r gweithlu.

### Cwestiwn 6: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod.

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid penodi Bwrdd Gweithredol Interim pan fydd popeth arall wedi methu yn unig, ac nid i ddisodli gweithio mewn partneriaeth.

**Ymateb**: Cytuno. Disgwylir i awdurdodau lleol ymgysylltu'n effeithiol ag ysgolion drwy ddeialog proffesiynol i roi sylw i unrhyw faterion sy'n peri pryder i'r awdurdod lleol. Os nad yw'r ysgol yn dangos llawer o dystiolaeth ei bod yn gwella yn dilyn y trafodaethau hyn ac ar ôl cefnogaeth a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol, dylai'r awdurdod lleol ystyried rhoi hysbysiad rhybuddio er mwyn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol cyn i'r materion sy'n peri pryder olygu bod ysgol yn methu. Ceir meini prawf clir ar gyfer rhoi hysbysiadau rhybuddio sydd wedi'u gosod mewn deddfwriaeth. Byddai ysgol yn gymwys am ymyrraeth os ydyw wedi methu cydymffurfio â hysbysiad rhybuddio neu os yw Estyn yn pennu ei bod angen gwelliannau sylweddol neu fesurau arbennig. Penodi Bwrdd Gweithredol Interim yw un o'r pwerau sydd ar gael i'r awdurdod lleol os yw ysgol yn gymwys am ymyrraeth ac fe'i hystyrir os yw rheolaeth a llywodraethu wedi methu. Cyn i awdurdod lleol allu penodi Bwrdd Gweithredol Interim, rhaid iddo gael caniatâd Gweinidogion Cymru yn gyntaf.

Dymuna Llywodraeth Cymru gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb wnaeth ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn.

## Camau nesaf

Bydd y rheoliadau, fel y maent wedi'u drafftio, yn mynd ymlaen drwy'r broses ddeddfwriaethol o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y dyddiad targed i wneud y rheoliadau yw 2 Gorffennaf 2012 ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru bydd y rheoliadau newydd yn dod i rym ar 1 Medi 2012.

## Rhestr yr ymatebwyr

1. Cadeirydd, Bwrdd Gweithredol Interim, Ysgol Gatholig St Albans
2. NUT Cymru
3. Estyn
4. Llywodraethwyr Cymru
5. Cyfranogaeth Cymru
6. Cyfarwyddiaeth Addysg a Hamdden, Cyngor Sir Caerffili
7. Gwasanaethau Cefnogi Ysgolion a Llywodraethwyr Abertawe, Cyngor Sir Abertawe
8. NASUWT (Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau)
9. NAHT Cymru
10. Cyngor Gwynedd
11. Ymatebydd yn dymuno aros yn ddienw.